**Adran Cyfoeth Naturiol**
**Department for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Prif Swyddogion Cynllunio

13 Ionawr 2016

Annwyl Gyfaill

**ADRODDIADAU CATEGOREIDDIO TIR AMAETHYDDOL**

Mae paragraff 4.10 o Bolisi Cynllunio Cymru (y Polisi) yn nodi'r polisi cynllunio o ran diogelu tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA) Cymru. Rhoddir canllawiau pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 6, ac mae trefniadau ymgynghori Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn rhoi caniatâd am unrhyw gynigion nad ydynt yn unol â'r Cynllun Datblygu ac y byddai'n golygu colli (yn barhaol a dros dro) 20 hectar neu fwy o dir GMA. Mae hyn yn cynnwys colli tir sy'n llai nag 20 hectar o faint ond sy'n debygol o arwain at golli 20 hectar neu fwy o dir yn y pen draw (TAN6, Atodiad B2).

Er nad yw'n ofynnol i ACLlau ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar geisiadau cynllunio nad ydynt yn 'sbarduno' gofynion statudol fel y nodir yn Atodiad B2, gallai colli tir GMA fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

I allu rhoi polisi GMA ar waith, mae'n bwysig cael gafael ar wybodaeth gywir am ansawdd tir. Nid yw map Categoreiddio Tir Amaethyddol (CTA) Amodol ar gyfer Cymru yn gywir ar raddfa sy'n benodol i safle. Dylech gael gafael ar wybodaeth o arolwg CTA manwl. Mae arolygon CTA yn gymhleth ac mae'r adroddiadau yn dechnegol eu natur felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwasanaeth dilysu adroddiadau CTA am ddim. Byddem yn annog ACLlau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Gallwch e-bostio ymgynghoriadau i'r Gwasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir: LQAS@Cymru.gsi.gov.uk


BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cyfarwyddiaeth Cynllunio • Planning Directorate
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Welsh Inquiry Line • Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
English Inquiry Line• Llinell Ymholiadau Saesneg 0845 010 3300
Planning.Directorate@Cymru.GSI.Gov.UK
Planning.Directorate@Wales.GSI.Gov.UK

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi Canllawiau Arfer Gorau ac yn diweddaru mapiau CTA ar gyfer Cymru. Bydd y rhain yn rhoi cymorth pellach i ACLlau wrth ystyried materion tir amaethyddol GMA. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Yn gywir



**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd
Cyfarwyddiaeth Cynllunio
Yr Adran Cyfoeth Naturiol